**Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru**
**Cofnodion y 7fed Cyfarfod**

24 Ebrill 2012, Swyddfa CCGC, Y Drenewydd

**1. Croeso, cyflwyniadau**
**Yn bresennol**: Liz Halliwell (CGC - Cofnodion), Rob Strachan (AyrA), Jean Matthews (CCGC - Cadeirydd), Steve Lucas (YCY), Audrey Watson (BASC), Henry Schofield (VWT), Isabel Macho (Cyngor Sir Gâr)

**Ymddiheuriadau**:
Ian Danby (BASC), Ceri Morris (CCGC – MISE), Rob Parry (WTSWW), Iolo Lloyd (CCC), Adrian Lloyd Jones (YNGC), Rob Parry (WTSWW), Jenny Macpherson (VWT – MISE), Lizzie Wilberforce (WTSWW), Kate Williamson (Cymdeithas y Mamaliaid), Rebecca Pritchard (Menter Môn), Sarah Bird (Sw Caer)

Diweddariadau sefydliadol
CCGC/CCC/AyrAC – gwaith yn mynd yn ei flaen ar ddatblygu corff amgylcheddol sengl (CS) yng Nghymru. Y Gweinidog i fod i wneud cyhoeddiad i'r Sesiwn Lawn ym mis Mai. Mae secondiadau i'r CS yn mynd yn ei flaen, gan gynnwys i'r rhaglen Cymru Fyw (Jim Latham, Ecolegydd Coetiroedd CCGC a Rhian Thomas Ecolegydd Dŵr Croyw CCGC yn mynd i'r CS ar 1 Mai).

**2. Diweddariad ar Brosesau CGB**
**Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau –** daeth ynghyd ar 8 Ebrill. Cytunodd GARh am yr angen o hyd am bartneriaid arweiniol CGB, ond mae angen i GARh gefnogi'r rôl. Mae cynlluniau i gynnal gweithdy ar gyfer partneriaid arweiniol unwaith y cytunir ar broses ffurfiol.

**Cymru Fyw** – ymgynghoriad yn cau cyn bo hir. Cynhaliwyd cynhadledd yn ddiweddar a chyflëwyd dyheadau mewn ffordd gadarnhaol, ond mae pryderon niferus ynglŷn â sut y caiff ei roi ar waith.
Mae'n debygol y bydd Cronfa Gwydnwch, Amrywiaeth a Chydymffurfio Ecosystemau Llywodraeth Cymru ar agor eto eleni, ond nid oes unrhyw fanylion ar gael eto.
Mae PBC bellach wedi'i gadeirio gan Matthew Quinn yn hytrach na Diana Reynolds. Mae cynlluniau peilot FfAN wedi cael eu gohirio am y tro.

**Adrodd Erthygl 17 -** y gofyniad i'r DU adrodd i Ewrop am statws yr holl rywogaethau yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd bob 6 blynedd. Yn ystod y rownd adrodd ddiwethaf yn 2006, arweiniodd JNCC ar baratoi'r adroddiadau, ond eleni bydd yr asiantaethau, gan gynnwys CCGC, yn gyfrifol am baratoi'r adroddiadau. Mae'n rhaid ymgynghori â NGO ar ôl i adroddiadau drafft gael eu cynhyrchu, ond gellir eu cynnwys ar gam cynharach hefyd.

Mae adrodd yn gofyn am wybodaeth am ystod, maint y boblogaeth, tueddiadau poblogaeth, argaeledd a thueddiadau cynefinoedd, pwysau a bygythiadau. Mae Exegesis yn coladu argaeledd data gwybodaeth o fudiadau eraill. Os nad yw data ar gael, mae'n bosib defnyddio 'barn arbenigol', er y beirniadwyd y DU am ddibynnu'n

ormodol ar hyn yn yr adroddiad diwethaf. Mae angen cwblhau adroddiadau erbyn mis Medi.

**Pwynt Gweithredu 1 - Jean a Liz i ddosbarthu dolenni i adroddiadau ac arweiniad Erthygl 17.**
**Pwynt Gweithredu 2 - Steve i gysylltu â Kate yn YCY i sefydlu ei rôl wrth goladu data ar gyfer yr adroddiadau Erthygl 17.**

**3. Diweddariadau prosiectau/partneriaid**
VWT – wedi derbyn ariannu gwerth £75k gan Co-op ar gyfer prosiect belaod coed newydd yng Nghymru. Bydd y prosiect, o'r enw 'Pobl a Belaod Coed', yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, yn chwilio am dystiolaeth o felaod coed ac yn creu sylfaen o wybodaeth ar gyfer ailstocio posib yn y dyfodol. Hefyd, mae VWT yn penodi PhD ym Mhrifysgol Caerwysg ar effaith golau artiffisial ar anifeiliaid di asgwrn cefn.

Sir Gâr – mae Jacqueline Hartley wedi cael ei chontractio i wneud arolygon pathewod a gweithio gydag ymddiriedolaethau eraill i sefydlu blychau nythu, gan gynnwys mewn parc gwledig. Cafwyd Interniaeth PTES i ymchwilio i gysylltedd mewn perthynas â safleoedd pathewod hefyd. Yn gweithio'n dda gyda'r prosiect MISE hefyd.

BASC – mae'n rhaid i bob Swyddog Gwlad a Rhanbarthol dreulio traean o'u hamser ar Fioamrywiaeth. Y Swyddog newydd yng Nghymru yw David Williams, a fydd yn ymdrin â phrosiectau bioamrywiaeth y tu allan i Ogledd Cymru, yr ymdrinnir â nhw gan Audrey yn y Prosiect Greenshoots.

**Pwynt Gweithredu 3 – PAWB i anfon diweddariadau partner cgaph os nad ydynt eisoes wedi'i wneud.**

**4. Cynlluniau Gweithredu CGB**
Mae Steve wedi anfon y Cynlluniau Gweithredu ystlumod (ac eithrio LHS a GHS) at Sean McHugh er mwyn iddi eu rhoi ar y wefan PBC, gyda'r cafeat y bydd rhai targedau etc yn newid, o bosib.

Mae cynlluniau eraill ar waith o hyd, a chytunwyd mai'r flaenoriaeth yw cyhoeddi'r cynlluniau cgaph, hyd yn oed os nad oedd yn bosib ychwanegu'r wybodaeth am wydnwch a cherrig milltir.

Mae'r adolygiad targedau wedi'i ohirio oherwydd oedi wrth goladu data sydd eisoes yn bodoli.

**Pwynt Gweithredu 4 – Steve i adnabod pwy sy'n gyfrifol am roi camau gweithredu o gynlluniau mamaliaid Cymru ar BARS - partneriaid arweiniol neu CGBLl sy'n rhoi'r cynlluniau ar waith.**

**Pwynt Gweithredu 5 – POB partner arweiniol arall i orffen cynlluniau gweithredu mor bell â phosib yn barod i gael eu cyhoeddi**

**Pwynt Gweithredu 6 – JM/LHa i gael gwybod gan PBC ble mae cynlluniau'n debygol o gael eu cyhoeddi.**

**5. Bylchau tystiolaeth GARh**

Mae GARh wedi gofyn i bob grŵp tacson adnabod y tair blaenoriaeth uchaf ar gyfer ymchwil. Mae angen darparu rhestr o sefydliadau academaidd sy'n berthnasol i famaliaid yng Nghymru, ond yn (?)
Ystlumod: Bryste, Caerwysg, Stirling, Leeds, Canolfan Ymchwil Ystlumod Iwerddon (Prifysgol Queens Belfast)
Mamaliaid eraill: WildCRU Rhydychen, Caerefrog, y Gymdeithas Famaliaid.

Effaith ffyrdd ar ystlumod a phathewod – mae CCGC eisoes wedi cynnal trafodaethau gyda Defra mewn perthynas â ffyrdd a materion gwahanu ar gyfer ystlumod a phathewod. Mae angen i ymchwil gynnwys effeithiolrwydd pontydd ystlumod neu bathewod.

Monitro effeithiolrwydd lliniaru – problemau gyda rhoi monitro ar ôl adeiladu ar waith. Adroddodd HS fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gwneud peth gwaith arolwg yn ddiweddar ar adeiladau sydd wedi cael eu datblygu. Mae'r canlyniadau wedi peri peth pryder. Mae diffyg gwybodaeth am ba mor dda y mae lliniaru'n gweithio ac yn effeithio ar ein gallu i ddarparu argymhellion a barn pobl eraill ar rywogaethau wedi'u hamddiffyn.

Beth mae gwydnwch yn ei olygu ar gyfer mamaliaid? – Mae monitro gan Tir Gofal yn anelu at ymdrin â hyn. Ond byddai angen prosiect hir dymor i edrych ar ymateb rhywogaethau i newid yn yr hinsawdd.

Diffyg gwybodaeth am rai rhywogaethau blaenoriaeth – ni chyflawnwyd unrhyw arolygon haenedig ar ddraenogod, llygod y cynhaeaf, carlymod a gwencïod i ddarparu gwybodaeth gwlad gyfan am statws y rhywogaethau hyn. Yn ogystal â gwneud y gwaith hwn, mae angen hefyd am ddatblygu technegau monitro hir dymor arloesol ar gyfer rhywogaethau allweddol.

**6. Prosiectau â blaenoriaeth a chyfleoedd ariannu**

Ystlumod coetir prin – mae modelau wedi'u cwblhau a'u cymharu i adnabod mannau lle ceir nifer mawr o ystlumod du a Bechstein. Gellid defnyddio'r prosiect hefyd i gefnogi rheolaeth fasnachol ar goetiroedd a thrwyddedu.
**Pwynt gweithredu 7 - JM i ddrafftio cynnig am brosiect ystlumod coetir prin a dosbarthu i SL a HS.**

Arolygon llygod y cynhaeaf – roedd Rob Parry wedi e-bostio cynnig ar gyfer astudiaeth llygod y cynhaeaf yng Ngwarchodfa Natur Parc Slip. Mae angen i'r gwaith arolygon llygod y cynhaeaf sy'n cael ei gyflawni gan y prosiect MISE gael ei gyflwyno yng ngweddill Cymru. Mae'r opsiynau'n cynnwys defnyddio grwpiau fel GlamBAG a rhwydweithiau o grwpiau mamaliaid lleol. Gallai CCGC o bosib ariannu hyfforddiant a dadansoddi potiau abwyd mewn ardaloedd y tu allan i'r prosiect MISE. Gallai gysylltu â grwpiau eraill megis grwpiau pathewod a grwpiau ystlumod a fyddai, efallai, yn hoffi rhywbeth arall i'w wneud.

Nododd RS y byddai'n ddefnyddiol targedu rhai cynefinoedd ee cynefinoedd morfa heli uchaf, planhigfeydd coedwigaeth ifanc gyda glaswelltiroedd twmpathog gwlyb, deschampia, molinia.

**Pwynt Gweithredu 8 – HS i siarad â Jenny Macpherson am waith arolwg llygod y cynhaeaf ym Mhowys a De-ddwyrain Cymru. Mae potensial iddi gynnig peth hyfforddiant/mynd ar ymweliadau yn Abertawe.**
**Pwynt Gweithredu 9 – LH i ystyried cyfathrebiadau gyda gweithwyr mamaliaid Powys a De-ddwyrain Cymru i'w hannog i wneud arolygon llygod y cynhaeaf.**

Cadwraeth llygod y dŵr – roedd y cais i arian ecosystemau 2011/12 LlC yn aflwyddiannus. Awgrymodd AW nad yw adnoddau ar gyfer rafftiau'n broblem fawr ond mai argaeledd rhywun i ddifa mincod yw'r ffactor cyfyngol. Ymdrinnir yn eithaf da â rhai ardaloedd gyda cheidwaid sy'n fodlon helpu, ond mae bylchau sylweddol. Mae angen sefydlu cronfa i dalu costau teithio ceidwaid afon i ddifa mincod?

Geneteg llygod y dŵr - prosiect MISE i gynnwys gwaith ar geneteg poblogaethau llygod y dŵr. Mae potensial hefyd am waith genoteip i ymchwilio i lif genynnau, ond byddai angen ymchwil fanylach.
Awgrymodd Isabel y gallai fod posibilrwydd o beth arian adran 106 yn Llanelli, gan gynnwys £10k ar gyfer gwaith llygod y dŵr yn yr ardal ehangach. Nodwyd hefyd ein bod yn dal i aros am adroddiad monitro Tir Gofal o hyd, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am lygod y dŵr.
**Pwynt Gweithredu 10 – Jenny, Jean a Rob i drafod prosiect geneteg llygod y dŵr yn MISE.**

Dyfrgwn
Mae gwaith DNA ar faw dyfrgwn yn rhoi llawer mwy na'r hyn a oedd yn bosib yn flaenorol. Byddai'n ddiddorol i ffocysu gwaith ar ardaloedd SAC gyda dyfrgwn fel nodwedd. Mae'r gwaith arfordirol yn datgelu llawer mwy nag yn y gorffennol.

Draenogod
Annog pobl i wneud arolygon twneli draenogod. Rob ddim yn siŵr ei fod yn bosib dilysu dwysedd arwyddion gyda dwysedd draenogod. Mae'r Gymdeithas Famaliaid yn awyddus i hyrwyddo twneli tracio fel methodoleg safonol. Awgrymwyd y dylai draenogod fod ar bob rhestr CGBLl ac y dylid annog gwirfoddolwyr i hyfforddi i wneud arolygon.
**Pwynt Gweithredu 11 – KW i sicrhau bod monitro draenogod CyM yn cael ei adlewyrchu yn y cynllun gweithredu**

Pathewod
Mae'r prosiect MISE yn gwneud gwaith arolwg a monitro ac yn trefnu seminar ym mis Tachwedd. Gobeithir gwneud peth gwaith cadwraeth gwrychoedd ymarferol gyda pherchnogion tir ym mlynyddoedd 3 a 4 y prosiect. Mae AW yn gweithio gyda pherchnogion tir fel rhan o'r prosiect Greenshoots i'w hannog i blannu gwrychoedd a gwella rheolaeth.

Gwiwerod coch

Prosiect MISE yn gweithio yng Ngogledd a Gorllewin Cymru. Mae CCGC a VWT yn ail-lunio cyllidebau gyda golwg ar gyflogi contractwr i wneud gwaith gyda gwiwerod.

Rhyngweithio rhwng YPLl ac YPM
Nid yw VWT yn gwybod eto p'un a fydd addasiadau i eithrio ystlumod YPM o glwydi YPLl yn gweithio. Mae ychydig iawn o safleoedd YPLl VWT nad ydynt wedi cael YPM.

Carlymod a gwencïod
Mae dyluniad tiwb gwallt newydd yn cael ei dreialu gan Jenny. Mae hi'n rhedeg gweithdy hyfforddi yn y De-orllewin ym mis Mai ac efallai y bydd am eu rhoi ar led yn ddiweddarach.

Cyfleoedd ariannu
Ni all awdurdodau lleol ymgeisio am arian Amgylchedd Cymru.

**Pwynt Gweithredu 12 –** Steve i fwydo'n ôl i GARh bod prosiectau'n canolbwyntio ar ecosystemau ac nad ydynt yn cyflwyno nac yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhywogaethau.

**Pwynt Gweithredu 13** – Liz a Jean i gysylltu â Kate am ddiweddariad ar yr Atlas Mamaliaid

**Prosiectau â blaenoriaeth**
Cytunwyd ar y canlynol fel prosiectau â blaenoriaeth:
Minc a llygod y dŵr
Gwiwerod coch Canolbarth Cymru - yn enwedig ardal Tywi nad yw wedi'i chwmpasu gan y prosiect MISE.
Tiwbiau draenogod

**8. Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfod ar 20 Mehefin 2011**.
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cofnodion.

*PG1 – JM/LHa (neu eraill) i ddod o hyd i fwy o wybodaeth am brosiectau peilot FfAN.*
Rhoddwyd diweddariad yn y cyfarfod.
**Pwynt Gweithredu 14 newydd - Steve i gylchredeg nodyn y mae wedi'i dderbyn gan PBC mewn perthynas â chynlluniau peilot FfAN.**
*PG2 - JM/LHa i gysylltu â Mike Bruford i ledaenu canfyddiadau ymchwil i geneteg ffwlbartiaid ac adnabod goblygiadau ar gyfer cadwraeth. Oes angen samplau arnynt ar gyfer dadansoddi?*
Mae gwaith wedi dod i ben ar hyn o bryd ac nid yw e'n siŵr a fydd angen samplau pellach ai beidio.
*PG3 – PAWB i anfon diweddariadau partner cgaph os nad ydynt eisoes wedi'i wneud.*
Mae'r rhai a dderbyniwyd wedi cael eu cylchredeg
*Pwynt Gweithredu 4: JM/LHa i gylchredeg fformat ar gyfer adran gwydnwch y Cynllun Gweithredu.*
Wedi'i Gwblhau

*Pwynt Gweithredu 5: JM i ymgorffori e-bost RS ar lygod y dŵr i fformat y Cynllun Gweithredu a dosbarthu drafft.* Wedi'i Gwblhau
*Pwynt Gweithredu – Jean i ddiwygio'r map llygod y dŵr i gynnwys safleoedd ailgyflwyno.* Wedi'i Gwblhau
*Pwynt Gweithredu 6: PAWB i anfon unrhyw syniadau monitro cerrig milltir i'r arweinydd rhywogaethau priodol.* Arweinydd rhywogaethau wedi adrodd yn y cyfarfod
*Pwynt Gweithredu 7: Prosiect MISE i goladu cofnodion llygod y cynhaeaf neu CCGC fel rhan o adolygiad data. Targed i gael ei adolygu yng ngoleuni gwybodaeth newydd i roi isafswm targed.*
Wedi'i gynnwys fel rhan o adolygiad data CCGC. Adolygiad data'n mynd yn ei flaen.
*Pwynt Gweithredu 8: LHa i adolygu targedau pathewod a gwirio argaeledd data gyda PTES.*
Ymarfer coladu data'n mynd yn ei flaen gyda PTES. Caiff y targedau eu hadolygu unwaith y cwblheir coladu'r data.
*Pwynt Gweithredu 9: SL i e-bostio BGs i ofyn am bresenoldeb a lleoliad clwydi ystlumod mawr y gwyddys amdanynt i ddechrau'r broses o goladu cofnodion ac amcangyfrif targed.*
Wedi'i gwblhau, ond dim byd wedi'i dderbyn gan Grwpiau Ystlumod.
**Pwynt Gweithredu 15 newydd - Steve i godi'r angen am gofnodion o ystlumod mawr yn y Diwrnod Gweithwyr Ystlumod.**
*Pwynt Gweithredu 10: SL i ofyn faint o safleoedd ystlumod lleiaf Soprano sy'n cael eu monitro yn NBMP*
Wedi'i Gwblhau. Mae CCGC wedi gofyn i YCY sylwi ar faterion monitro ehangach.
*Pwynt Gweithredu 11: JM/LHa i gynnwys BLE fel rhan o chwilio data LRC. SL i ofyn i NBMP faint o safleoedd yn fwy y mae eu hangen ar gyfer data tueddiadau Cymru (mae angen 40 o safleoedd ar gyfer dadansoddi tueddiadau).*Wedi'i gynnwys yn yr ymarfer coladu data.
**Pwynt Gweithredu 16 newydd – Jean a Liz i gylchredeg canlyniadau coladu data ar gyfer llygod y cynhaeaf etc mor fuan ag y maent ar gael.**
*Pwynt Gweithredu 12: JM i goladu data YPM ac ychwanegu nodyn parthed ehangu'r amrediad.* Parhaus
*Pwynt Gweithredu 13: JM i ddefnyddio model addasrwydd cynefinoedd YPLl i wirio nifer y sgwariau a feddiannir ar hyn o bryd ac ar gyfer ehangu'r amrediad.* Parhaus
*Pwynt Gweithredu 14: LHa i adolygu targedau gwiwerod coch.* Heb ei gwblhau
*Pwynt Gweithredu 15: Terfyn amser ar gyfer diwygiadau i'r cynllun gweithredu – 23 Ionawr, i'w hanfon at Sean McHugh erbyn 27 Ionawr.* Mae Steve wedi cyflwyno PG ystlumod (ar wahân i YPLl ac YPM) i Sean. Eraill i'w cwblhau.
*Pwynt Gweithredu 16: Yr holl arweinwyr rhywogaethau i anfon rhestr o ardaloedd CGBLl at JM/LHa i gynhyrchu mapiau.* Parhaus
*Pwynt Gweithredu 17: Fideo gynhadledd ystlumod coetir prin i'w threfnu.* Wedi'i chwblhau
*Pwynt Gweithredu 18: JM i ddrafftio adroddiad ar waith 2010/11 ar gyfer y cyfarfod nesaf.* Heb ei gwblhau.

**9. Unrhyw fusnes arall**
Dim byd

**10. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Mawrth 4 Hydref 2012

**Negeseuon Allweddol o'r cyfarfod**

1. Y prosiectau â blaenoriaeth i gael eu hariannu yw'r prosiect rheoli mincod a phrosiect gwiwerod coch canolbarth Cymru.
2. Mae angen annog defnydd cyffredinol o arolygon draenogod a llygod y cynhaeaf.